

## Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) Crynodeb Tystiolaeth Gyflym

***Pa dystiolaeth sydd o'r ddeddf gofal gwrthgyfartal ym maes gofal  
cymdeithasol yng Nghymru ac a waethygyd hyn gan bandemig  
COVID-19?***

**Rhif yr adroddiad RES\_00019 (Chwefror 2022)**

### CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

#### **Beth yw Crynodeb Tystiolaeth Gyflym?**

Mae Crynodebau Tystiolaeth Gyflym wedi'u cynllunio i ddarparu briff tystiolaeth interim i lywio gwaith pellach a sicrhau bod canfyddiadau allweddol ar gael yn gynnar. Maent yn seiliedig ar chwiliad cyfyngedig o adnoddau allweddol ac asesu crynodebau. Rhoddir blaenoriaeth i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno tystiolaeth gadarn. Ni chynhelir unrhyw werthuso ansawdd na chyfuno tystiolaeth, a dylid bod yn ofalus wrth dehongli'r crynodeb.

#### **Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**

Cynhaliwyd y gwaith hwn yn dilyn adolygiad cyflym o [ddatblygiadau arloesol sy'n helpu i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol](#) ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r 'ddeddf gofal gwrthgyfartal', yn nodi bod natur gaffaeladwy gofal meddygol da yn tueddu i amrywio'n wrthgyfartal gydag angen y boblogaeth a wasanaethir (Tudor Hart, 1971). Nod y crynodeb tystiolaeth gyflym (RES) hwn oedd archwilio a ellid cymhwyso'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal i fynediad at ofal cymdeithasol a'r defnydd ohono yng Nghymru ac a oedd anghenion nas diwallwyd yn cael eu gwaethygu gan y pandemig.

#### **Canfyddiadau Allweddol**

*Hyd a lled y sylfaen dystiolaeth*

- **Ni nodwyd unrhyw astudiaethau yn y DU** a ymchwiliodd i'r ddeddf gofal gwrthgyfartal mewn gofal cymdeithasol a pha un a waethygyd hyn gan bandemig COVID-19
- **Nodwyd un astudiaeth** o Sweden a ymchwiliodd i'r ddeddf gofal gwrthgyfartal mewn gofal cymdeithasol
- Nodwyd tri phapur a oedd yn ymdrin â'r **ddeddf gofal gwrthgyfartal ym maes gofal iechyd** yn ystod pandemig COVID-19 (gan gynnwys iechyd digidol) a disgrifiodd saith o **benderfynyddion cymdeithasol anghydraddoldebau iechyd**

*Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau rhwng **2019 a 2022** i gynnwys effaith pandemig COVID-19
- Cynhwyswyd adroddiad cyn y pandemig o 2018 gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar werth economaidd y gofal cymdeithasol i oedolion er gwybodaeth

Crynodeb o'r bylchau yn y dystiolaeth a nodwyd

- Mae **diffyg tystiolaeth o'r ddeddf gofal gwrthgyfartal a gymhwyswyd i faes gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19 o gronfeydd data COVID-19**
- **Yn aml, ni nodwyd nodweddion gwarchoddedig** felly, nid yw'n glir pa grwpiau sy'n profi'r anghydraddoldeb iechyd mwyaf ac felly'r angen am wasanaethau
- Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a nodwyd yn ymwneud ag unigolion dros 65 oed; felly, mae **bylchau mewn gwybodaeth am blant, a phoblogaethau eraill sy'n agored i niwed** o ran gofal cymdeithasol
- Mae diffyg tystiolaeth am **ofal cymdeithasol a ddarperir mewn lleoliadau cartref**

### Goblygiadau'r Polisi

Gellir defnyddio'r bylchau tystiolaeth a nodwyd yn y gwaith hwn i lywio galwadau ymchwil sylfaenol yn y dyfodol.

### Cryfder y Dystiolaeth

Nid oedd digon o dystiolaeth i symud ymlaen at Adolygiad Cyflym. Oherwydd natur chwilio cyflym, nid yw'n glir a oes mwy o dystiolaeth o'r ddeddf gofal gwrthgyfartal ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ni chynhaliwyd arfarniad ansawdd.

### Dylid enwi'r crynodeb tystiolaeth gyflym hwn fel a ganlyn:

RES00019. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Crynodeb tystiolaeth gyflym sy'n dangos tystiolaeth o'r ddeddf gofal gwrthgyfartal ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru ac a waethygyd hyn gan bandemig COVID-19? Chwefror 2022

[http://www.primecentre.wales/resources/RES/RES00019-Wales\\_COVID-19\\_Evidence\\_Centre-Inverse\\_Care\\_Law\\_in\\_Social\\_Care-February\\_2022.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/RES/RES00019-Wales_COVID-19_Evidence_Centre-Inverse_Care_Law_in_Social_Care-February_2022.pdf)

### Gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn o lyfrgell WCEC:

<https://ymchwilielchydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

### Ymwadiad:

Barn yr awduron yw'r farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn, nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WC19EC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.